## Cysyniadau allweddol



Roedd Rashi yn ysgolhaig Iddewig canoloesol amlwg sy'n adnabyddus am ei sylwebaethau ar y Beibl Hebraeg a Thalmud. Bydd y rhan fwyaf o Iddewon sydd wedi astudio sylwebaeth feiblaidd yn adnabod yr ymadrodd 'Chumash gyda Rashi'. Mae sylwebaeth Rashi ar y Talmud yr un mor bwysig, a dywedir bod ganddo'r rhodd o ragweld cwestiynau'r darllenydd a rhoi esboniadau byr, clir. Cymaint oedd llwyddiant y dull hwn bod ei sylwebaeth ar y Talwm yn parhau i gael ei chydnabod fel yr esboniad diffiniol hyd heddiw.

Dibynna sylwebaeth feiblaidd Rashi ar peshat. Mae'n ysgrifennu mewn rhyddiaith Hebraeg glir, gryno a darllenadwy, gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth sy'n cynnwys bywyd amaethyddol hyd yn oed. Mae dwy enghraifft o ddull Rashi i'w gweld yn ei waith yn Exodus 23:19, 'Ni fyddwch yn berwi plentyn yn llaeth ei fam', a Lefiticus 24:19-20, 'llygad am lygad, dant am ddant'.

Mae Maimonides yn ffigwr arwyddocaol, yn enwedig o fewn y traddodiad Uniongred, lle mae ei '13 Egwyddor Ffydd' yn cael eu dal yn eang fel credoau gorfodol. At hynny, ystyrir mai ei Mishneh Torah yw'r llawlyfr terfynol o gyfraith Iddewig, sy'n cynnwys pedwar ar ddeg o lyfrau, pob un yn ymdrin â phwnc ar wahân yn y system gyfreithiol Iddewig. Ysgrifennwyd y 'Canllaw i'r Rhai sydd wedi Drysu' ganddo er mwyn ceisio helpu'r Iddewon hynny yr oedd dysgeidiaethau athroniaeth Groegaidd wedi eu drysu ac nad oeddent yn gwybod sut y gallent ailgymodi â'r gred Iddewig (er nad oedd heb ei feirniaid).

Mae dehongliad Rashi o Genesis 1:1 yn dibynnu ar peshat ac mae'n canolbwyntio ar esboniad traddodiadol drwy iaith a gramadeg er mwyn dadansoddi'r testun. Cynigia Rashi greu 'de novo' o 'o'r newydd'.

Mae dehongliad Maimonides o Genesis 1:1 yn cyflwyno dau esboniad gwahanol o'r weithred o greu. Ar y naill law mae'n weithred sy'n gyfystyr ag amrantiad cyntaf amser, ar y llaw arall mae'n weithred lle mae Duw yn siapio'r byd o fater cynfodol ac annelwig.

## Dyfyniadau allweddol



*'Roedd ei wefusau (Rashi) yn sedd ddoethineb, a diolch iddo mae'r Gyfraith, a archwiliwyd ac a ddehonglwyd ganddo, wedi dod yn fyw eto.'* (ben Nathan)

*'(Maimonides) ... un o gewri meddylfryd yr Iddewon... Ysgrifennodd yr astudiaeth ddiffiniol am y 613 mitzvot ...'* (Robinson)

*'Nid oes gan weithred Duw o ddod â'r byd i fodolaeth ddechrau amseryddol, gan fod amser yn un o'r pethau a grëwyd.'* (Maimonides)

## Geiriau allweddol

chumash | peshat | de novo

## Materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso

### *Cwestiynau a dadleuon allweddol*

**Pwysigrwydd cymharol Rashi a Maimonides ar gyfer deall ysgrythurau Hebraeg.**
Er bod ganddynt wahanol ddulliau, roedd y ddau ohonynt yn ceisio gwneud y Talmud yn gydlynol ac yn hawdd mynd ato. Efallai nad yw'n bosibl asesu pwysigrwydd cymharol Rashi a Maimonides mewn ffordd wrthrychol. Efallai mai'r ateb gorau yw cydnabod bod y ddau yn bwysig am resymau gwahanol.

**I ba raddau mai Maimonides yw'r ysgolhaig Iddewig mwyaf cyflawn.**
Mae ei effaith a'i ddylanwad ar Iddewiaeth Uniongred a thu hwnt yn awgrymu y gellid ei ystyried fel yr ysgolhaig Iddewig cyflawn. Mae'n anodd penderfynu p'un a yw'n cynrychioli'r ysgolhaig Iddewig mwyaf cyflawn heb restr ddiffiniol o nodweddion y gallwn eu defnyddio i gymharu ei gyflawniadau. A ellir dod i gytundeb cyffredin am nodweddion ysgolhaig Iddewig nodweddiadol? Ni ddylid anghofio bod ysgolheigion Iddewig nodedig eraill yn parhau i gael effaith ar gredoau ac arferion Iddewig.